

Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
23 Tachwedd 2021

Rhan 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd ('yr Athrofa'), sydd wedi'i lleoli yn Fflorens yn yr Eidal, yn athrofa ryngwladol ar gyfer ymchwil ac addysgu ôl-ddoethurol a ôl-raddedig a sefydlwyd gan aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd drwy Gonfensiwn Sefydlu Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn 1976. Ei nod yw cyfrannu at ddatblygiad gwyddonol a diwylliannol ym maes y gwyddorau cymdeithasol, a hynny o safbwynt Ewropeaidd.
- 1.2 Mae Erthygl 17 o'r Confensiwn yn darparu y bydd pob Gwladwriaeth Gontractio, i'r graddau y mae cyllid ar gael, yn annog dyfarnu grantiau i'r gwladolion hynny sy'n cael eu derbyn i'r Athrofa. Mae'r cymorth ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n mynd i'r Athrofa yn cael ei ddarparu gan Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 (OS 2014/3037). Mae Rheoliad 14 yn pennu na chaiff Gweinidogion Cymru ond dyfarnu cymorth i un myfyriwr cymwys ym mhob blwyddyn academiaidd.
- 1.3 Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 ('y Rheoliadau') yn diwygio Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014 er mwyn sicrhau cydymffurfedd â Chytundeb Ymadael yr UE, cytundeb gwahanu EFTA yr AEE, y cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd ('y Cytundebau') a threfniant yr Ardal Deithio Gyffredin.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Nid oes materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a), 22(2)(e) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Bellach 1998 ("Deddf 1998").
- 3.2 Mae adran 22(1) o Ddeddf 1998 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach sy'n cael eu dynodi gan y rheoliadau hyn, neu odanynt. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymysg pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.

- 3.3 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ('Deddf 2004') yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy yn gyfredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru.
- 3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).
- 3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
- 3.6 Gwneir y rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014, sy'n angenrheidiol o ganlyniad i ymadawriad y DU â'r UE.
- 4.2 Mae'r Rheoliadau yn dileu cymhwystra gwladolion yr UE ar gyfer cymorth ac yn rhoi hawliau i'r dinasyddion hynny o dan y Cytundebau.
- 4.3 Caniateir i un myfyriwr fod yn gymwys am gymorth ariannol i astudio yn yr Athrofa ym mhob blwyddyn academaidd. Nid yw'r diwygiadau yn newid hynny.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddio wedi ei gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Opsiynau

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

6.1 Os na wneir y diwygiadau hyn i'r rheoliadau, ni fyddai'r amodau cymhwysra ar gyfer cymorth ariannol i astudio yn yr Athrofa yn cydymffurfio â'r Cytundebau a threfniant yr Ardal Deithio Gyffredin.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

6.2 Mae gwneud y rheoliadau hyn yn sicrhau cydymffurfedd â'r Cytundebau a threfniant yr Ardal Deithio Gyffredin. Gan fod yr un newidiadau wedi cael eu gwneud i reoliadau sy'n darparu ar gyfer cymorth i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch eraill, mae'r diwygiadau yn sicrhau cydraddoldeb ar draws y system cymorth i fyfyrwyr.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

7.1 Nid oes costau ychwanegol na buddiannau penodol o ran parhau â busnes fel arfer.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

7.2 Nid oes costau ychwanegol o ran gwneud y rheoliadau hyn gan fod y sefyllfa yng Nghymru, sef na all Gweinidogion Cymru ond dyfarnu cymorth i un myfyriwr cymwys ym mhob blwyddyn academaidd, yn parhau.

8. Asesiad o'r gystadleuaeth

8.1 Nid yw gwneud y Rheoliadau hyn yn cael effaith ar ba mor gystadleuol yw busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn destun adolygiad manwl, parhaus, gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi o ran gweithredu'r rheoliadau'n ymarferol.